

2006 Rhif 95

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**Cyfarwyddiadau Codau Ymddygiad
ac Atebolrwydd ar gyfer Byrddau'r
GIG a'r Cod Ymddygiad ar gyfer
Rheolwyr y GIG 2006**

Wedi'u gwneud

18 Rhagfyr 2006

Yn dod i rym

1 Ionawr 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16BB(4), 17, a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(1), yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn:

Cymhwyso, cychwyn a dehongli

1. —(1) Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn a elwir Cyfarwyddiadau Codau Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer Byrddau'r GIG a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Rheolwyr y GIG 2006, i gyrff y GIG yng Nghymru a deuant i rym ar 1 Ionawr 2007.
- (2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru yn unig.
- (3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn –

(1) 1977 p. 49. Mewnosodwyd adran 16BB(4) gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17 2002 ac fe'i diwygiwyd gan adran 184 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gofal yn y Gymuned a Safonau 2003 (p 43) a chan baragraffau 7 a 10 o Atodlen 11 ohoni. Disodlwyd adran 17 gan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999") ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 5, Rhan 1, paragraff 5(1) a (3) i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15). Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 17 (ac eithrio mewn rhai achosion nad ydynt yn berthnasol i'r cyfarwyddiadau hyn), ac 126(4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672 fel y'i diwygiwyd gan adran 66(4) a (5) o Ddeddf 1999.

ystyr “y Cynulliad” (*“the Assembly”*) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “Corff y GIG” (*“NHS Body”*) yw Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG;

ystyr “aelodau Bwrdd Iechyd Lleol” (*“Local Health Board members”*) yw'r aelodau hynny sy'n ddeiliad unrhyw swydd yn unol ag Atodlen 5B, paragraff 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

Mae i “Cyfarwyddwyr y GIG” (*“NHS Trust directors”*) yr ystyr a roddir iddynt yn adran 5(5)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990(1).

Cydymffurfio â'r Codau Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer Byrddau'r GIG

2. Rhaid i bob aelod Bwrdd Iechyd Lleol a phob cyfarwyddwr y GIG, i'r graddau y maent yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a roddwyd iddynt gan y Cynulliad, gydymffurfio â'r codau a nodir yn y ddogfen o dan y teitl “Codau Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer Byrddau'r GIG” dyddiedig Medi 2006.

Cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Rheolwyr y GIG

3. Rhaid i bob rheolwr y GIG a gyflogir neu sydd wedi'i gontractio i reoli ar ran unrhyw gorff y GIG yng Nghymru, i'r graddau y maent yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a roddwyd iddynt gan y Cynulliad, gydymffurfio â'r cod a nodir yn y ddogfen o dan y teitl “Cod Ymddygiad ar gyfer Rheolwyr y GIG” dyddiedig Medi 2006.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Brian Gibbons
18 Rhagfyr 2006

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol